

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal

Rhagfyr 2021

1. Cyflwyniad

1. Ar 1 Medi 2021, gosododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Gweinidog HSS") Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") gerbron y Senedd ar gyfer Bil Iechyd a Gofal Llywodraeth y DU ("y Bil").
2. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 23 Medi 2021. Yn dilyn yr ymestyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad i 11 Tachwedd 2021, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog HSS, Gweinidog Iechyd Llywodraeth y DU ("Gweinidog y DU"), ac at randdeiliaid sydd â diddordeb yn y materion a godwyd yn y Memorandwm, gan gynnwys: y Cyngor Deintyddol Cyffredinol; y Cyngor Meddygol Cyffredinol; y Cyngor Optegol Cyffredinol; y Cyngor Fferyllol Cyffredinol; y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal; y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; a Chydffederasiwn GIG Cymru.
3. Gwnaethom ystyried yr ymatebion a gafwyd yn ein cyfarfod ar 4 Tachwedd 2021, ac, yn dilyn yr ymestyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad o 11 Tachwedd 2021 i 16 Rhagfyr 2021, gwnaethom ysgrifennu eto at y Gweinidog HSS i ofyn am ragor o wybodaeth.
4. Mae ein llythyrau, a'r ymatebion a gawsom, ar gael ar wefan y Senedd.
5. Drwy gydol yr adroddiad hwn, dylid darllen cyfeiriadau at rifau cymalau fel rhai sy'n ymwneud â'r rhifo yn y Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ym mis Gorffennaf 2021, oni nodir yn wahanol.



2. Cefndir

Trosolwg o'r Bil Iechyd a Gofal

6. Cyflwynwyd y Bil gerbron Senedd y DU ar 6 Gorffennaf 2021. Mae'r nodiau esboniadol ar y Bil yn dweud mai ei nodau yw:

"...give effect to the policies that were set out as part of the NHS's recommendations for legislative reform following the Long Term Plan and in the White Paper 'Integration and Innovation: Working together to improve Health and Social Care for all' published in February 2021.

The Bill aims to support Government in doing the following:

- Promoting local collaboration;*
- Reforming the NHS Provider Selection Regime;*
- Improving accountability and enhancing public confidence in the health and care system; and*
- Delivering a range of targeted measures to support people at all stages of life".¹*

3. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Trosolwg

7. Mae paragraffau 3 i 5 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraffau 6 i 67 yn nodi'r darpariaethau yn y Bil y mae Llywodraeth Cymru yn credu bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Rydym yn trafod materion sy'n ymwneud â'r darpariaethau hyn drwy gydol ein hadroddiad.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

8. Mae safbwyntiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Bil, ac ynglŷn â pha mor briodol neu beidio yw'r darpariaethau ar gyfer Cymru sy'n cael eu cynnwys, wedi'i nodi ym mharagraffau 68

¹ Llywodraeth y DU, Health and Care Bill: explanatory notes, Gorffennaf 2021

i 71 o'r Memorandwm.² Mae'r Memorandwm yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu argymhell y dylid rhoi cydsyniad i'r Bil fel y'i cyflwynwyd, ac mae'n nodi hefyd:

"68. Er bod rhinwedd i rai o'r darpariaethau yn y Bil, er enghraifft mewn perthynas â gordewdra, gwybodaeth am fwyd i gwsmeriaid a diddymu deddfiadau diangen (yn ymwneud ag anghenion cleifion am ofal a chymorth i'w hasesu cyn eu rhyddhau o'r ysbyty), mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai nifer o'i ddarpariaethau yn cael effaith niweidiol ar y setliad datganoli."³

9. Mae'r Memorandwm yn nodi bod pryderon penodol Llywodraeth Cymru yn cynnwys pryderon ynghylch darpariaethau a fyddai'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth y Senedd, a goblygiadau negyddol posibl rhai o'r darpariaethau i gyrff y GIG yng Nghymru. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog HSS roi rhagor o fanylion am natur a graddau disgwylidig unrhyw oblygiadau negyddol posibl. Esboniodd:

"Rwy'n pryderu am yr holl feysydd yn y Bil yr wyf wedi nodi a allai effeithio ar y setliad datganoli neu ar gyrff datganoledig – ac sydd wedi eu nodi yn y Memorandwm – os na fyddwn yn sicrhau'r gwelliannau a geisir. Fodd bynnag, tan y bydd y pwerau yn y Bil yn cael eu defnyddio, mae'n anodd mesur yr effeithiau negyddol yn union. Mae fy swyddogion yn gweithio i sicrhau gwelliannau a fyddai'n cael yr effaith o leihau effeithiau negyddol posibl."⁴

10. Mae'r Memorandwm yn nodi ymhellach fod trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch rhai anghytundebau, a'i bod yn bosibl y caiff Memorandwm atodol ei gyflwyno maes o law. Dywedodd y Gweinidog HSS:

"I grynhoi'n gyffredinol ar y pwynt hwn, rwy'n croesawu'r ymgysylltu a fu hyd yma â Llywodraeth y DU a bod fy swyddogion yn parhau â'r hyn yr wyf yn dal i fod yn obeithiol a fydd yn drafodaethau a chanlyniadau cynhyrchiol."⁵

² Yn ogystal, rhoddodd y Gweinidog HSS dystiolaeth i [Bwyllgor Bil Iechyd a Gofal Tŷ'r Cyffredin ar 7 Medi 2021](#).

³ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Iechyd a Gofal](#), 1 Medi 2021

⁴ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

⁵ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

11. Dywedodd y Gweinidog HSS hefyd yn ei llythyr ar 19 Hydref 2021 ei bod yn ymwybodol o nifer o welliannau posibl eraill yr oedd Llywodraeth y DU yn ystyried eu cyflwyno, gan gynnwys un y gofynnodd Llywodraeth Cymru amdano mewn perthynas ag archwilwyr meddygol. Dywedodd "os bydd yn ofynnol cael cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y gwelliannau hyn, caiff Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ei osod gerbron y Senedd ar yr adeg briodol".⁶

12. Yn ei llythyr dilynol ar 25 Tachwedd 2021, dywedodd:

"...ar 18 Tachwedd, yn dilyn trafodaethau adeiladol rhwng fy swyddogion a swyddogion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Llywodraeth y DU, yn ogystal â thrafodaethau rhyngof i a'r Gweinidog Gwladol dros lechyd, gosododd Llywodraeth y DU nifer o ddiwygiadau sy'n mynd i'r afael â'r mwyafrif o'r prif bryderon sydd gan y Llywodraethau Datganoledig gyda'r Bil.

[...]

Pleidleisiwyd o blaid y diwygiadau yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Tachwedd. Felly byddaf yn cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ymwneud â'r Bil i adlewyrchu'r newidiadau hynny.⁷

13. Amlinellodd hefyd nifer o welliannau eraill a wnaed i'r Bil gan Dŷ'r Cyffredin a gaiff eu cynnwys mewn Memorandwm atodol, gan gynnwys:

- Archwilwyr meddygol, fel y nodir ym mharagraff 11.
- Profi gwryfydod.
- Ad-dalu fferyllfeydd cymunedol.⁸

⁶ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

⁷ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Tachwedd 2021

⁸ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Tachwedd 2021

4. Cymal 85: systemau gwybodaeth meddyginiaethau

Cefndir

14. Mae cymal 85 yn creu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer sefydlu a gweithredu system wybodaeth am feddyginiaethau gan y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (a elwir yn NHS Digital) i ganiatáu creu cofrestrfa meddyginiaethau a ddelir yn ganolog ar gyfer y DU yn gyfan. Diben datganedig y cofrestrfeydd hyn yw bod yn ffynhonnell o dystiolaeth ar y defnydd o feddyginiaethau, eu diogelwch a'u heffeithiolrwydd, a gwella diogelwch cleifion.

15. Mae cynhyrchion meddyginiaethol wedi'u cadw o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae'r pŵer a ddarperir gan gymal 85 i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu a gweithredu systemau gwybodaeth yn bŵer eang, ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai Senedd Cymru ddeddfu i roi i Weinidogion Cymru rai o'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 85 (er nad pob un ohonynt). Mae hefyd yn bosibl y bydd y rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi swyddogaethau a/neu rwymedigaethau i Awdurdodau Datganoledig Cymreig.

Gorgyffwrdd â chasglu data yng Nghymru

16. Mae'r Gweinidog HSS yn dweud yn ei llythyr ar 19 Hydref 2021 ei bod yn cefnogi caniatáu i ddata a gesglir yn rheolaidd gael eu cynnwys mewn cofrestrfeydd at ddibenion gwella diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd meddyginiaethau dynol. Fodd bynnag, roedd hi'n credu bod y dibenion y gellir casglu gwybodaeth ar eu cyfer yn rhy eang, "gan ymestyn y tu hwnt i faterion diogelwch ac i feysydd sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, fel gwybodaeth sy'n ymwneud â phenderfyniadau clinigol". Awgrymodd y gallai goblygiadau hyn gynnwys:

- Gofynion ychwanegol a beichiau ariannol ar gyrff y GIG, meddygon teulu, fferyllfeydd, ysgolion a sefydliadau addysg uwch.
- Goblygiadau i gontractau gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru, gyda goblygiadau ariannol posibl i Lywodraeth Cymru.⁹

17. Nododd y Gweinidog HSS hefyd fod gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru bwerau eisoes i gasglu gwybodaeth o systemau presennol yng Nghymru, gan ddadlau felly nad oes angen i

⁹ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

system ar draws y DU gael ei sefydlu gan gorff o Loegr fel NHS Digital. Dywedodd y canlynol o ran y dull a ffefrir ganddi hi:

- Felly, gallai'r corff hwn sefydlu system i Gymru a chyfrannu at gofrestrfa'r DU ar sail safonau a manylebau y cytunwyd arnynt, gan sicrhau mai dim ond gwybodaeth benodol am gleifion Cymru, sydd ei hangen arnynt at ddibenion penodol y cofrestrfeydd, a ddarperir i NHS Digital".
- Rwyf wedi gofyn felly i Lywodraeth y DU ddiwygio'r cymal i osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i'w galluogi i sefydlu systemau cyfatebol, naill ai drwy awdurdodau digidol yng Nghymru neu drwy enwebu NHS Digital i sefydlu system ar eu rhan.¹⁰

18. Nododd y Gweinidog HSS yn ei llythyr ar 19 Hydref 2021 nad oes darpariaeth yn y Bil fel y'i cyflwynwyd i alluogi i'r data gael eu defnyddio gan Weinidogion Cymru at ddibenion sydd o fewn eu cymhwysedd.¹¹ Roedd hyn hefyd yn bryder i Gydffederasiwn GIG Cymru, a oedd yn awgrymu y dylid cynnwys darpariaeth i hwyluso mynediad GIG Cymru at y data.¹²

19. Fodd bynnag, yn ei llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2021, eglurodd y Gweinidog HSS fod diwygiadau y cytunwyd arnynt gan Dŷ'r Cyffredin ar 23 Tachwedd 2021 yn golygu bod y Bil bellach yn mynnu bod yn rhaid i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan gymal 85 "ddarparu ar gyfer casglu gwybodaeth gan Weinidogion Cymru neu berson dynodedig fel Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn amodol ar eithriadau penodol yn yr is-ddeddfwriaeth".¹³ Cadarnhaodd Gweinidog y DU yn yr un modd y byddai'r rheoliadau'n caniatáu i ddata o fewn y tiriogaethau datganoledig gael eu casglu gan sefydliadau cyfryngol.¹⁴

Defnydd amhriodol o ddata cleifion Cymru

20. Mynegodd y Gweinidog HSS bryderon hefyd ym mis Hydref 2021 ynghylch y posibilrwydd y gallai rheoliadau a wneir o dan gymal 85 alluogi defnydd eang o ddata cleifion Cymru at ddibenion y gellid ystyried nad ydynt yn briodol gan Weinidogion Cymru. Dywedodd fod trafodaethau ynghylch y materion hyn yn parhau, ond ei bod wedi gofyn i welliannau i'r Bil gael eu cyflwyno er mwyn:

¹⁰ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

¹¹ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

¹² LCMHCB06 Cydffederasiwn GIG Cymru

¹³ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Tachwedd 2021

¹⁴ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd, 25 Tachwedd 2021

"...darparu bod sefydliad cyfryngol (GIG Cymru) yn casglu data am gleifion ar ran Gweinidogion Cymru, bod yr elfen benodol sy'n caniatáu i ddata dinasyddion Cymru, pan fydd y rhain wedi cael eu darparu i NHS Digital, gael eu defnyddio i wneud penderfyniadau clinigol yn cael ei dileu, ac i ganiatáu i ddata dan ffugenw gael eu darparu i NHS Digital".¹⁵

21. Yn yr un modd, mynegodd Cydffederasiwn GIG Cymru bryderon am y defnydd amhriodol posibl o ddata cleifion Cymru:

"6. Whilst these seem reasonable provisions, the exception is Regulation 7A(2)(b). Under Regulation 7A(2)(b) healthcare organisations providing information that the Government decides is required could include information provided to the Information Centre for the purposes of its functions under the Regulations. The Health and Social Care Information Centre is already in existence (mainly in NHS England) where previously there has been concerns raised about data being collected from GPs in England, anonymised and then sold on. Patients can opt out (if they are aware of it).

7. The systems could be very useful for research into adverse drug reactions (ADRs) and improving prescribing, but potentially drug companies could be interested in access to such a large database. Therefore, Welsh Government should be given the power to make a decision on the use of its population data and to ensure that there are adequate safeguards in place. In addition, NHS Wales should have the ability to benefit from access to the data."¹⁶

22. Yn ei llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2021, eglurodd y Gweinidog HSS y byddai gwelliannau y cytunwyd arnynt gan Dŷ'r Cyffredin ar 23 Tachwedd 2021 yn:

"... cyfyngu ar gwmpas y dibenion y gellir gwneud rheoliadau systemau gwybodaeth meddyginiaeth ar eu cyfer. Mae'r diwygiad yn nodi'n glir bod unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau at ddibenion sy'n ymwneud â phenderfyniadau clinigol yn berthnasol

¹⁵ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

¹⁶ LCMHCB06 Cydffederasiwn GIG Cymru

*dim ond pan fo cysylltiad â diogelwch penderfyniadau o'r fath yn ymwneud â meddyginiaethau dynol."*¹⁷

23. Esboniodd Gweinidog y DU fod y newid yn esbonio'r defnydd o ddata, ac yn cyfyngu ar y defnydd ehangach o wybodaeth i benderfyniadau clinigol a wneir, gan sicrhau hefyd 'lle nodir risg i ddiogelwch unigolyn neu grŵp, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth honno i lywio'r defnydd o'r feddyginiaeth yn y lleoliad clinigol, er enghraifft i sicrhau bod mesurau lleihau risg yn cael eu dilyn".¹⁸

Yr angen am Gydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer rheoliadau

24. Ar hyn o bryd nid oes angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer rheoliadau a wneir, neu gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 85, dim ond ymgynghori â hwy. Ar y sail y gallai rheoliadau o'r fath effeithio ar Gymru, roedd y Gweinidog HSS wedi gofyn i welliannau gael eu cyflwyno i'w gwneud yn ofynnol mai dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y gellid gwneud rheoliadau o dan gymal 85. Fodd bynnag, eglurodd ym mis Hydref 2021 na fyddai angen cydsyniad pe bai gwelliannau'n cael eu cyflwyno i roi effaith i'r dull amgen a ffefrir ganddi (a nodir ym mharagraff 17). Yn ei llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2021, cadarnhaodd fod y dull a ffefrir ganddi wedi'i fabwysiadu, a bod ymgynghori â Gweinidogion Cymru, felly, yn ddull diogelu digonol yn ei barn hi.¹⁹

25. Yn ogystal, dywedodd Gweinidog y DU yn ei llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2021 y byddai diwygiadau a wnaed i'r gofynion ymgynghori yn "darparu gofyniad statudol i sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban yn cyfrannu'n ystyrlon at y gwaith o sefydlu a gweithredu systemau gwybodaeth am feddyginiaethau pan oeddent yn ymwneud â Chymru neu'r Alban, yn y drefn honno".²⁰

Ein barn ni

26. Er ein bod yn cydnabod bod gwerth mewn cofrestrfa feddyginiaeth ledled y DU, mae'n hanfodol bod digon o fesurau diogelu ar waith i ddiogelu data personol a meddygol cleifion o Gymru, ac i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n briodol.

27. Felly, rydym yn croesawu'r cadarnhad gan y Gweinidog HSS yn ei llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2021 fod gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ac y cytunwyd arnynt gan

¹⁷ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Tachwedd 2021

¹⁸ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd, 25 Tachwedd 2021

¹⁹ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Tachwedd 2021

²⁰ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd, 25 Tachwedd 2021

Dŷ'r Cyffredin ar 23 Tachwedd 2021 wedi mynd i'r afael â'i phryderon ynghylch casglu a defnyddio data cleifion Cymru.

Casgliad 1. Nid oes gennym wrthwynebiad i'r Senedd roi ei chydysniad i gynnwys cymal 85 (systemau gwybodaeth meddyginiaethau) yn y Bil fel y'i diwygiwyd gan Dŷ'r Cyffredin ar 23 Tachwedd 2021.

5. Cymalau 86-92: Trosglwyddo Swyddogaethau Cyrff Hyd Braich

Cefndir

28. Mae cymalau 86-92 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i drosglwyddo swyddogaethau rhwng "cyrff perthnasol" ac i ddirprwyo swyddogaethau iechyd penodol yr Ysgrifennydd Gwladol iddynt. Felly, maent yn creu pŵer cyffredinol mewn deddfwriaeth sylfaenol i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy gyfrwng rheoliadau, drosglwyddo neu gyfuno swyddogaethau ac i ddiddymu cyrff lle y mae'r holl swyddogaethau wedi'u trosglwyddo i ffwrdd. Caiff y cyrff perthnasol eu diffinio yng nghymal 86, ac maent oll yn Gyrff Iechyd Cyhoeddus Anadrannol.

29. Dywedodd y Gweinidog HSS wrthym:

"Mae rhai o'r Cyrff Hyd Braich sy'n dod o dan gwmpas y pŵer yn ymgymryd â swyddogaethau yng Nghymru. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau cyfarwyddo mewn perthynas â rhai o'r swyddogaethau hyn ac mae gan Weinidogion Cymru hawliau i benodi neu enwebu cynrychiolaeth o Gymru i'r cyrff. Felly, gallai trosglwyddo neu gyfuno swyddogaethau'r cyrff hyn arwain at erydiad ym mhwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r cyrff hynny neu effeithio ar swyddogaethau'r cyrff hynny yng Nghymru. Mae'r prif gyrff sy'n peri pryder fel a ganlyn:

- NHS Digital
- Yr Awdurdod Ymchwil Iechyd
- Yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol
- Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol
- Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

Swyddogaethau Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol

30. O dan gymal 88, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddarparu i gyrff hyd braich arfer swyddogaethau penodedig yr Ysgrifennydd Gwladol ar eu rhan os ydynt yn swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr neu swyddogaethau y gall yr Ysgrifennydd Gwladol eu darparu i Awdurdod Iechyd Arbennig eu harfer. Dywedodd y Gweinidog HSS wrthym ei bod wedi cael sicrwydd gan Lywodraeth y DU, mewn perthynas ag Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol, fel Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, "nad yw'r rhain yn cynnwys swyddogaethau y cyfarwyddir iddynt eu harfer gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru".²²

Ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar reoliadau a wneir o dan gymalau 87 ac 88

31. Os gwneir rheoliadau o dan gymalau 87 ac 88 a fyddai'n gymwys yng Nghymru, mae cymal 92 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Mae cymal 89 yn rhoi pŵer Harri VIII i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ddiddymu, dirymu neu ddiwygio i ddeddfwriaeth y Senedd mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymalau 87 neu 88, heb unrhyw ofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad y Senedd. Fodd bynnag, byddai'r broses Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A yn cael ei defnyddio, ac felly byddai angen cydsyniad y Senedd os byddai unrhyw Offeryn Statudol a osodir gerbron Senedd y DU mewn perthynas â Chymru yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

32. Dywedodd y Gweinidog HSS wrthym ym mis Hydref 2021 "er mwyn diogelu'r setliad datganoli", roedd hi wedi gofyn bod y Bil yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i reoliadau a wneir o dan gymalau 87 ac 88 fod yn ddarostyngedig i gydsyniad Gweinidogion Cymru, nid ymgynghori yn unig. Tynnodd sylw hefyd at ei phryder ynglŷn â'r pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth Gymreig, a nododd fod trafodaethau ynghylch y materion hyn yn parhau.²³

33. Dywedodd Gweinidog y DU wrthym fod trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng swyddogion ar draws y pedair Llywodraeth yn y DU ynghylch drafftio Memorandwm Cyd-

²¹ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

²² LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

²³ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

ddealltwriaeth ar sut y byddai'r broses ymgynghori'n gweithio, a'i fod yn obeithiol y gellid dod i gytundeb wrth i'r Bil fynd drwy Senedd y DU.²⁴

Trosglwyddo eiddo etc

34. Mae cymalau 90 a 91 yn ymwneud â chynlluniau trosglwyddo mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan gymalau 87 ac 88. Yn benodol, mae cymal 90 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol drosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau i Weinidogion Cymru neu Ymddiriedolaethau GIG Cymru. Nododd y Gweinidog HSS ei bod wedi "gofyn i Weinidogion Cymru a chyrff Cymreig gael eu tynnu allan o ddarpariaeth Cymal 90 ac rwy'n obeithiol y bydd hyn yn digwydd".²⁵

35. Yn ei llythyr ar 25 Tachwedd 2021, darparodd y Gweinidog HSS wybodaeth bellach am ei phryderon mewn perthynas â chymal 90 fel y'i cyflwynwyd:

"Gallai'r cymal hwn achosi problemau. Er bod Llywodraeth y DU wedi cynnwys darpariaeth yn y cyflwyniad i'r Bil (yng nghymal 92) y bydd trosglwyddiad yn amodol ar ymgynghori â Gweinidogion Cymru, gellir trosglwyddo eiddo, hawliau neu rhwymedigaethau digroeso i Weinidogion Cymru, y Byrddau Iechyd Lleol neu Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru ar gyfer cyrff nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw ddylanwad arnynt. Ni fyddai'n bosibl i Weinidogion Cymru atal trosglwyddiad o'r fath, na'u trosglwyddo i Lywodraeth y DU. Nid oedd swyddogion yn rhagweld sefyllfa lle byddai angen trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau corff i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â throsglwyddo swyddogaethau a wnaed o dan bwerau yng nghymalau 87 ac 88. Cytunodd y swyddogion yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y byddai hyn yn annhebygol ond mae'n destun pryder o hyd bod darpariaethau'r Bil yn eu galluogi i wneud hynny."²⁶

36. Ychwanegodd, er bod trafodaethau adeiladol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi arwain at gytundeb ar ddiwygiad i ddileu Gweinidogion Cymru, Ymddiriedolaethau GIG Cymru ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru o gymal 90, na chafodd y diwygiad, yn y pen draw, ei gyflwyno. Eglurodd y Gweinidog HSS mai'r rheswm am hyn oedd nad oedd cytundeb wedi'i wneud eto gyda'r holl Weinyddiaethau Datganoledig ar ddiwygiadau eraill yn

²⁴ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd, 25 Tachwedd 2021

²⁵ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

²⁶ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Tachwedd 2021

ymwneud â darpariaethau cyrff hyd braich, ond bod trafodaethau ynghylch y materion hyn yn parhau.²⁷

37. Yn yr un modd, nododd Gweinidog y DU, er bod y Gweinidog HSS wedi nodi ei bod yn fodlon â phe cyn diwygiadau arfaethedig Llywodraeth y DU, ni ddaethpwyd i gytundeb gyda'r tair Gweinyddiaeth Ddatganoledig. Dywedodd ei fod "yn parhau i fod yn obeithiol y byddwn yn gallu dod i gytundeb dros yr wythnosau nesaf cyn Cyfnod Pwyllgor y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi".²⁸

Ein barn ni

38. Rydym yn nodi'r datganiad gan y Gweinidog HSS ynghylch sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU nad yw swyddogaethau Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol mewn perthynas â Chymru wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y pwerau o dan gymal 88 i'r Ysgrifennydd Gwladol ddirprwy swyddogaethau penodedig i gyrff hyd braich. Fodd bynnag, byddai ymrwymiad deddfwriaethol drwy ddiwygio darpariaethau'r Bil yn rhoi rhagor o sicrwydd na sicrwydd nad yw'n un cyfreithiol a roddir gan Llywodraeth y DU y gallai Llywodraethau yn y dyfodol ei ddiystyru.

39. Nodwn fod materion nad ydynt wedi'u gweithredu eto mewn perthynas â chymalau 88-92 (trosglwyddo swyddogaethau cyrff hyd braich), gan gynnwys mewn perthynas â throsglwyddo eiddo etc. Nodwn hefyd fod y Gweinidog HSS yn rhagweld y gallai'r darpariaethau hyn fod yn destun Memorandwm atodol i'w gyflwyno maes o law, a bydd yn ystyried y materion hyn ymhellach bryd hynny.

6. Cymal 120: Trefniadau gofal iechyd rhyngwladol

Cefndir

40. Mae cymal 120 yn diwygio Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 (HEEASAA) i alluogi Llywodraeth y DU i weithredu cytundebau gofal iechyd rhyngwladol gyda gwledydd, tiriogaethau a sefydliadau rhyngwladol drwy is-ddeddfwriaeth. Os oes gan y DU gytundeb gofal iechyd rhyngwladol gyda pharti arall, gellir defnyddio cymal 120 i ariannu gofal iechyd sydd naill ai o fewn cwmpas y cytundeb hwnnw neu y tu allan iddo.

²⁷ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Tachwedd 2021

²⁸ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd, 25 Tachwedd 2021

41. Byddai cymal 120 hefyd yn ehangu daearyddiaeth pwerau dros dro presennol, ac yn eu gwneud yn barhaol, gan alluogi Llywodraeth y DU i awdurdodi taliadau yng ngwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir am bum mlynedd ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Roedd y trefniant dros dro hwnnw wedi'i sefydlu (a'i wneud yn amodol ar ddarpariaeth machlud pum mlynedd) ar y sail bod angen am gyflymder a hyblygrwydd wrth i'r DU adael yr UE.

42. Mae Llywodraeth y DU yn nodi y byddai'r diwygiadau i HEEASAA yng nghymal 120:

"...give the UK Government the opportunity to strengthen existing agreements and agree new reciprocal healthcare arrangements with more countries, subject to negotiations, where this is for the benefit of the people of the UK".²⁹

43. Yn ogystal â gwyro oddi wrth y confensiwn cyfansoddiadol sefydledig bod deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei defnyddio i weithredu cytundebau rhyngwladol lle mae gweithredu o'r fath yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth ddomestig,³⁰ byddai cymal 120 hefyd yn rhoi cyfle eang iawn i'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn "amgylchiadau eithriadol", wneud taliadau gofal iechyd sydd y tu allan i gytundebau gofal iechyd rhyngwladol. Nid yw'r Bil yn diffinio "amgylchiadau eithriadol", ac nid yw'n gosod unrhyw gyfyngiadau ar faint na math y gofal iechyd y gellir ei ariannu.

44. Mae Cymdeithas Hansard, yn ei dadansoddiad o gymal 120, yn pwysleisio'r gwyrriad oddi wrth gonfensiwn cyfansoddiadol, y cyfyngiadau daearyddol a thymhorol a osodir ar y pwerau dros dro gan Senedd y DU yn ystod ei gwaith craffu ar HEEASAA, a'r "diffyg meini prawf clir a chymesur ar gyfer yr hyn sy'n gyfystyr ag 'amgylchiadau eithriadol' i gyfiawnhau taliadau mewn perthynas â gofal iechyd dramor y tu allan i gwmpas cytundeb gofal iechyd rhyngwladol". Mae'n nodi bod defnyddio'r pwerau yng nghymal 120 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn unig, ac yn dod i'r casgliad a ganlyn o ran eu defnydd:

"...unlikely to be debated or voted on by MPs in the future. In the absence of any definition about what might constitute 'exceptional circumstances', the potential scope

²⁹ Llywodraeth y DU, *Policy paper: Health and Care Bill: Reciprocal healthcare arrangements*, 19 Gorffennaf 2021

³⁰ Mae'r rhan fwyaf o gytundebau rhyngwladol yn destun craffu gan Senedd y DU yn unol â gweithdrefn a sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010. O dan y weithdrefn hon, mae gan Senedd y DU 21 diwrnod i graffu ar gytundebau o'r fath a chyflwyno adroddiad arnynt.

for the use of the power is quite broad and again accords Ministers considerable discretion".³¹

45. Mae paragraff 10 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn darparu bod materion tramor a chysylltiadau rhyngwladol yn faterion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, nid yw arsylwi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig yn fater a gedwir yn ôl. Gan fod y ddeddfwriaeth hon yn ymwneud ag iechyd, sy'n fater datganoledig, byddai'r darpariaethau a fewnosodir gan gymal 120 ynghylch gwneud taliadau am ofal iechyd dramor i roi effaith i gytundebau gofal iechyd yn dod o fewn yr eithriad i'r mater a gedwir yn ôl, ac felly byddai o fewn cymhwysedd y Senedd.

46. Mae diwygiadau eraill yn cynnwys galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi swyddogaethau i awdurdodau cyhoeddus a/neu ddirprwyo swyddogaethau iddynt, wrth wneud rheoliadau i wneud darpariaeth er mwyn rhoi effaith i gytundebau gofal iechyd. Mae'r diffiniad o "awdurdod cyhoeddus" yn cynnwys Gweinidogion Cymru. Gallai'r Senedd ddeddfu i roi swyddogaeth debyg i Weinidogion Cymru.

47. Dywedodd Cydffederasiwn GIG Cymru y byddai'r ddarpariaeth yn rhoi mwy o ryddid i Lywodraeth y DU ddiwygio a diddymu'r trefniadau cyfatebol presennol gyda gwledydd eraill. Awgrymodd y gallai ehangder rhannu data, neu'r ystod o wledydd y mae data'n cael eu rhannu â hwy, gynyddu pe na bai deddfwriaeth data'r UE yn rhwymo'r DU mwyach. Nododd hefyd y byddai hyblygrwydd o ran cwrpas trefniadau cyfatebol, fel cynnwys neu eithrio mathau penodol o ofal neu wasanaethau.³²

48. Nododd y Gweinidog HSS yn ei llythyr ar 19 Hydref 2021, er nad yw cytundebau gofal iechyd rhyngwladol wedi'u datganoli:

"...rhaid i'r GIG yng Nghymru reoli cleifion sy'n dod i mewn a gwmpesir o dan yr holl drefniadau cytundebau gofal iechyd rhyngwladol. Gallai unrhyw drefniadau y cytunir arnynt gyda gwledydd eraill sy'n cael eu gweithredu o dan y darpariaethau hyn arwain at fwy o dwristiaeth iechyd a allai roi pwysau ar ein Byrddau Iechyd Lleol, ac effeithio ar eu capasiti".³³

³¹ Cymdeithas Hansard, *The Health and Care Bill: Delegated Powers*, 3 Medi 2021, t.7

³² LCMHCB06 Cydffederasiwn GIG Cymru

³³ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

49. Cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 120, bydd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan y ddeddfwriaeth bresennol a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth atodol sydd i'w gytuno arno rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog HSS yn nodi mai un o'i phrif bryderon o ran cymal 120 yw bod y gofyniad mewn perthynas â rheoliadau sy'n rhoi effaith i gytundebau gofal iechyd rhyngwladol yn ymwneud ag ymgynghori yn hytrach na chydsyniad. Dywedodd mai goblygiadau hyn yw efallai na fydd unrhyw bryderon a allai fod gan Lywodraeth Cymru ynghylch "pwysau afresymol neu sydd heb eu hariannu ar y GIG yng Nghymru sy'n deillio o gytundebau o'r fath" yn cael eu hystyried.³⁴ Dywedodd Gweinidog y DU fod swyddogion o bedair Llywodraeth y DU yn cydweithio i ddatblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer gweithredu'r broses ymgynghori, a'i fod yn "obeithiol y byddant yn cael eu cwblhau wrth i'r Bil barhau ei hynt drwy Senedd y DU".³⁵

50. Mae'r Gweinidog HSS hefyd yn disgrifio pryder pellach mewn perthynas â'r pŵer yn y cymal i'r Ysgrifennydd Gwladol roi swyddogaethau i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru a/neu ddirprwyo swyddogaethau iddynt, ond dywedodd bod trafodaethau ynghylch geiriad y ddarpariaeth yn parhau, a'i bod yn "obeithiol y gellir dod i safbwynt boddhaol".³⁶

51. Yn ei llythyr ar 25 Tachwedd 2021, cadarnhaodd y Gweinidog HSS ei bod wedi dod i gytundeb â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'i phryderon ynghylch cymal 120. Nododd fod gwelliannau wedi'u gwneud i:

- Ddarparu na fydd Gweinidogion Cymru, a sefydliadau eraill yng Nghymru ar wahân i fyrddau iechyd, wedi'u cynnwys yn y diffiniad o "awdurdod cyhoeddus" mewn perthynas â phŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddirprwyo swyddogaethau.
- Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig er mwyn rhoi effaith i gytundebau iechyd. Mae'r pŵer hwn yn cynnwys y pŵer i roi swyddogaethau i sefydliadau datganoledig yng Nghymru. Os bydd Gweinidogion Cymru yn "methu â rhoi swyddogaethau perthnasol i'r byrddau iechyd lleol ynghylch cytundebau gofal iechyd", caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi swyddogaethau o'r fath.³⁷ Awgrymodd Gweinidog y DU y byddai hefyd yn briodol i'r Ysgrifennydd

³⁴ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

³⁵ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd, 25 Tachwedd 2021

³⁶ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

³⁷ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Tachwedd 2021

Gwladol ddefnyddio'r pŵer mwy cyfyngedig sy'n weddill i roi swyddogaethau i fyrddau iechyd lleol yng Nghymru (a'r Alban) mewn amgylchiadau lle y 'gallai'r Gweinyddiaethau Datganoledig gytuno y byddai'n fwy effeithlon i'r Ysgrifennydd Gwladol weithredu cytundebau ar eu rhan'.³⁸

52. Cadarnhaodd Gweinidog y DU y byddai'r diwygiad a wnaed i gymal 120 ar 23 Tachwedd 2021 gan Dŷ'r Cyffredin yn rhoi 'pwerau i Lywodraeth Cymru wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, a byddai Llywodraeth y DU yn cadw'r gallu i wneud rheoliadau i weithredu trefniadau ar eu rhan'. Nododd, er y byddai gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer cydredol i wneud rheoliadau i weithredu trefniadau gofal iechyd cyfatebol o dan adran 2 o HEEASSA, y byddai gan Lywodraeth Cymru bwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau gofal iechyd cyfatebol 'os yw o fewn ei chymhwysedd datganoledig i wneud hynny'.³⁹

Ein barn ni

53. Rydym yn nodi barn y Gweinidog HSS yn ei llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2021 fod "y diwygiadau yn newid sylweddol o safbwynt y Bil fel y'i cyflwynwyd a'u bod yn diogelu'r setliad datganoli yn ddigonol".⁴⁰

54. Fodd bynnag, mae'r pwerau yng nghymal 120 yn parhau i fod yn eang iawn, o ran dileu'r terfynau daearyddol a thymhorol presennol ar weithredu cytundebau gofal iechyd cyfatebol, a diffyg unrhyw derfyn ar naill ai'r swm neu'r math o ofal iechyd y gellir ei ariannu y tu allan i gytundeb gofal iechyd rhyngwladol o dan 'amgylchiadau eithriadol'. Rydym yn cytuno â Chymdeithas Hansard y byddai'n well i'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys prawf clir a chymesur ar gyfer yr hyn sy'n gymwys fel 'amgylchiad eithriadol'.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog HSS gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU yn gofyn i welliant gael ei gyflwyno i gynnwys prawf clir a chymesur ar wyneb y Bil a fyddai'n gymwys fel 'amgylchiadau eithriadol' at ddibenion y swm neu'r math o ofal iechyd y gellir ei ariannu y tu allan i gytundeb gofal iechyd rhyngwladol.

55. Mae gennym rai pryderon hefyd ynghylch a yw Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhynglywodraethol anstatudol ar weithrediad y broses y dylid ei defnyddio i ymgynghori â Gweinidogion Cymru mewn perthynas â rheoliadau o dan gymal 120 i roi effaith i gytundebau

³⁸ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd, 25 Tachwedd 2021

³⁹ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd, 25 Tachwedd 2021

⁴⁰ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Tachwedd 2021

gofal iechyd rhyngwladol yn rhoi digon o amddiffyniad i'r setliad datganoli pan efallai na fydd yn rhwymo Llywodraethau olynol y DU i bob pwrpas.

Argymhelliad 2. Cyn gofyn i'r Senedd benderfynu a ddylai roi ei chydysyniad i gynnwys cymal 120 (cytundebau gofal iechyd rhyngwladol) yn y Bil ai peidio, dylai'r Gweinidog HSS sicrhau bod pob Aelod wedi cael copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth terfynol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019.

56. Yn ogystal, bydd defnyddio is-ddeddfwriaeth ar gyfer gweithredu cytundebau rhyngwladol yn lleihau'n sylweddol y posibilrwydd ar gyfer cynnal gwaith craffu, gan Senedd y DU, a, chan fod iechyd yn fater datganoledig, gan y Senedd. Mae materion cyfansoddiadol yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac rydym yn annog Aelodau o'r Senedd i ystyried yn ofalus unrhyw gasgliadau ac argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor hwnnw yn ei adroddiad ar y Memorandwm cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad i gymal 120.

7. Cymal 123: Rheoleiddio gofal iechyd a phroffesiynau cysylltiedig

Cefndir

57. Mae cymal 123 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i adran 60 ac Atodlen 3 o Ddeddf Iechyd 1999 ("Deddf 1999") sy'n ymwneud â rheoleiddio proffesiynau iechyd. Mae hyn yn cynnwys gwelliant a fyddai'n diwygio'r ddarpariaeth bresennol sy'n caniatáu i Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei wneud i reoleiddio "unrhyw broffesiwn arall" sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol unigolion, fel bod y cyfeiriad at broffesiwn yn cael ei drin fel pe bai'n cynnwys "unrhyw grŵp o weithwyr sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol unigolion", p'un a ydynt yn cael eu hystyried yn broffesiwn yn gyffredinol ai peidio.

58. Mae rheoleiddio proffesiynau gofal iechyd yn fater a gedwir yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae rheoleiddio personau nad ydynt yn weithwyr proffesiynol ond sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol unigolion yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig.

59. Dywedodd y Gweinidog HSS, yn ei llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2021, fod Llywodraeth y DU wedi cynghori:

"...bwriad y ddarpariaeth yw esbonio'r sefyllfa bresennol ac nid ei newid. Ar hyn o bryd nid oes bwriad i ddefnyddio'r pŵer hwn i reoleiddio unrhyw bersonau ychwanegol. Rwy'n deall hefyd mai bwriad y ddarpariaeth yw targedu uwch arweinwyr a rheolwyr iechyd rhag ofn y byddai Llywodraeth y DU yn dymuno rheoleiddio'r rhain yn y dyfodol".

60. Ychwanegodd nad oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i reoleiddio uwch arweinwyr a rheolwyr iechyd yng Nghymru.⁴¹

61. Awgrymodd Cydffederasiwn GIG Cymru y byddai'r ddarpariaeth yn caniatáu i Lywodraeth y DU ddad-reoleiddio proffesiwn pe bai'n ystyried nad oedd risg o ran diogelwch y cyhoedd. Rhybuddiodd, er enghraifft mewn perthynas â fferylliaeth, y gallai hyn arwain at ddiddymu'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol yng Nghymru, gan gollir amddiffyniad sy'n diogelu'r teitl fferyllydd neu dechnegydd fferyllol, a thanseilio'r proffesiwn yn sgil hynny.⁴² Mae diogelu teitl proffesiynau penodol hefyd wedi bod yn destun pryder i'r Coleg Nyrsio Brenhinol, sydd wedi cefnogi ymgyrch yn galw am neilltuo'r teitl "nyrs" i nyrsys sydd wedi'u cofrestru gyda'r rheoleiddiwr proffesiynol.⁴³

62. Disgrifiodd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ("CPIG") y cymal a'r agenda diwygio rheoleiddiol ehangach fel "cyfle i wella rheoleiddio proffesiynol er budd cleifion a defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â'r rhai sy'n cofrestru a'r system gofal iechyd yng Nghymru, a ledled y DU". Rhannodd y CPIG gynigion drafft gyda ni ar gyfer model rheoleiddio cydweithredol newydd y gellid ei roi ar waith gan gymal 123, a dywedodd y gallai cynigion o'r fath arwain at gryfhau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd rheoleiddio, "gyda manteision canlyniadol i ddiogelu'r cyhoedd a diogelwch cleifion ledled y DU".⁴⁴

63. Roedd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ("CMC") a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ("CNB") yn croesawu'r ddarpariaeth yn gyffredinol, ond tynnodd sylw at ddiffyg eglurder ynghylch gweithredu, gan gynnwys:

- Y posibilrwydd y gallai unigolion mewn swyddi uwch gael eu heffeithio gan reoleiddio gan fwy nag un rheoleiddiwr, er enghraifft pe bai uwch reolwyr neu

⁴¹ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Tachwedd 2021

⁴² LCMHCB06 Cydffederasiwn GIG Cymru

⁴³ Y Coleg Nyrsio Brenhinol, [RCN Council calls for further debate among members on crucial issue](#), 12 Gorffennaf 2021

⁴⁴ LCMHCB01 Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

arweinwyr yn cael eu hystyried yn grwpiau o weithwyr, gallai gynnwys rhai rolau nyrsio a bydwreigiaeth.

- Sut y bydd y pŵer i ddirprwyo swyddogaethau yn cael ei weithredu ar gyfer rheoleiddwyr unigol.
- Y meini prawf a fyddai'n cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau ynghylch a oes angen rheoleiddio proffesiwn mwyach at ddibenion diogelu'r cyhoedd, a pha ymgynghori fyddai'n cael ei gynnal i lywio penderfyniadau.⁴⁵

64. Nododd y CNB fod Llywodraeth y DU yn bwriadu cynnal adolygiad i archwilio pa broffesiynau y mae angen eu rheoleiddio, ond galwodd am y canlynol:

"...more information on the criteria that the [UK] Government will use for reviews of professional regulation in healthcare, and how it intends to engage and consult with the public and stakeholders before changes are made".⁴⁶

65. Dywedodd y Gweinidog HSS wrthym fod Llywodraeth y DU wedi cynnig diwygio'r Bil i gynnwys gofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru, wedi'i gefnogi gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, pe bai Llywodraeth y DU yn ceisio gwneud rheoliadau o dan adran 60 o Ddeddf Iechyd 1999 mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Roedd hi wedi gofyn, fodd bynnag, i ddiwygiad o'r fath ddarparu yn lle hynny y dylai fod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru. Nododd ym mis Hydref 2021 fod "trafodaethau cadarnhaol yn y maes hwn yn parhau".⁴⁷

66. Yn ei llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2021, eglurodd y Gweinidog HSS fod diwygiad wedi'i gyflwyno gan Lywodraeth y DU i ddarparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru wrth "gyflwyno rheoliadau yng Nghymru ar gyfer grŵp o weithwyr nad ydynt yn weithwyr proffesiynol ond sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol unigolion, o dan Adran 60 o Ddeddf Iechyd 1999".⁴⁸ Dywedodd Gweinidog y DU:

"The UK Government recognises the legislative competence of Senedd Cymru in this area [the regulation of a group of workers concerned with the physical and mental

⁴⁵ LCMHCB02 y Cyngor Meddygol Cyffredinol a LCMHCB04 y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

⁴⁶ LCMHCB04 Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

⁴⁷ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

⁴⁸ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Tachwedd 2021

health of individuals who are not generally regarded as a profession] and is respecting the devolution settlement in making this amendment."⁴⁹

Ein barn ni

67. Mae trefniadau rheoleiddio proffesiynol yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddiogel. Mae'n hanfodol bod eglurder i'r cyhoedd a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ynghylch sut y caiff cymal 123 ei weithredu, yn enwedig y meini prawf a fydd yn sail i benderfyniadau a'r ymgynghoriad a fydd yn cael ei gynnal.

68. Rydym yn croesawu'r cadarnhad gan y Gweinidog HSS fod y Bil wedi'i ddiwygio i ddarparu y bydd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru wrth arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan gymal 123 mewn perthynas â Chymru fel y mae'n ymwneud â grwpiau o weithwyr sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol unigolion.

Casgliad 2. Nid oes gennym wrthwynebiad i'r Senedd roi ei chydsyniad i gynnwys cymal 123 (rheoleiddio gofal iechyd a phroffesiynau cysylltiedig) yn y Bil fel y'i diwygiwyd gan Dŷ'r Cyffredin ar 23 Tachwedd 2021.

69. Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan y Gweinidog HSS nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i reoleiddio uwch arweinwyr a rheolwyr iechyd yng Nghymru. O ystyried pwysigrwydd y rolau hyn yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog am y sail resymegol dros hyn.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog HSS nodi pa ddadansoddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru o'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â rheoleiddio, neu beidio â rheoleiddio, uwch arweinwyr a rheolwyr iechyd yng Nghymru, a beth yw'r sail resymegol dros ei phenderfyniad i beidio â chyflwyno rheoliad o'r fath.

⁴⁹ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd, 25 Tachwedd 2021

8. Pwerau canlyniadol, ac ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch arfer pwerau

Cefndir

70. Byddai nifer o ddarpariaethau yn y Bil fel y'u cyflwynwyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i arfer pwerau o ran Cymru mewn perthynas â meysydd sydd o fewn cymhwysedd datganoledig ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Rheoliadau a wneir o dan gymal 85 mewn perthynas â sefydlu systemau gwybodaeth meddyginiaethau, pan fo rheoliadau o'r fath yn effeithio ar Gymru.⁵⁰
- Pan fo'r rheoliadau perthnasol yn gymwys yng Nghymru, rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymalau 87 ac 88 i drosglwyddo swyddogaethau i gyrff hyd braich neu oddi wrthynt neu i ddarparu i gyrff o'r fath arfer swyddogaethau penodedig yr Ysgrifennydd Gwladol.
- Rheoliadau drafft a wneir o dan gymal 120 sy'n rhoi effaith i gytundebau gofal iechyd rhyngwladol.
- Rheoliadau a wneir o dan gymal 123 mewn perthynas â rheoleiddio gofal iechyd a phroffesiynau cysylltiedig.⁵¹

71. Dywedodd y Gweinidog HSS wrthym:

"Gofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru, ynghyd â chytundeb rhynglywodraethol ar wahân yn pennu sut y bydd hynny'n gweithio, yw'r dull a ffefrir gan Lywodraeth y DU ar gyfer cymalau o'r natur hwn. Nid dyna'r dull yr wyf innau yn ei ffafrio o ystyried nad yw'r cytundebau yn rhwymo mewn cyfraith a gall llywodraethau'r dyfodol eu diystyru".⁵²

⁵⁰ Nododd y Gweinidog HSS yn ei llythyr ar 25 Tachwedd 2021, o ganlyniad i ddiwygiadau eraill a wnaed i gymal 85, ei bod yn fodlon bod yr angen i ymgynghori â Gweinidogion Cymru bellach yn ddull diogel digonol.

⁵¹ Diwygiwyd y Bil gan Dŷ'r Cyffredin ar 23 Tachwedd 2021 i ddarparu bod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru wrth gyflwyno rheoliadau yng Nghymru o dan adran 60 o Ddeddf Iechyd 1999 ar gyfer grŵp o weithwyr nad ydynt yn weithwyr proffesiynol ond sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol unigolion.

⁵² LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

72. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys nifer o ddarpariaethau a fyddai'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau mewn Mesur neu Ddeddf gan y Senedd. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Darpariaeth benodol yng nghymalau 89(6) (a fyddai'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth ddiddymu, dirymu neu ddiwygio i ddeddfwriaeth y Senedd mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan gymalau 87 ac 88 ynghylch trosglwyddo swyddogaethau i gyrrff hyd braich) a 125 (sy'n diwygio Deddf Cyfathrebiadau 2003 i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth ganlyniadol drwy Reoliadau sy'n diwygio, diddymu neu'n dirymu darpariaethau Deddf neu Fesur gan y Senedd, neu is-ddeddfwriaeth a wneir o dan ddarpariaethau o'r fath neu o dan Ddeddf Seneddol. Mae'r pŵer hwn wedi'i gyfyngu i ymestyn y gwaharddiad ar osod neu drefnu hysbysebu ar-lein i bersonau nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys o dan Ran C o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003).
- Pŵer cyffredinol, ar draws y Bil yng nghymal 130 i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, wneud darpariaeth yn ganlyniadol ar y Bil. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth i ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu fel arall unrhyw ddarpariaeth o fewn y Bil neu unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur gan y Senedd. Mae'r ddarpariaeth ar draws y Bil, sy'n golygu y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol arfer y pŵer canlyniadol hwn mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar y Bil er mwyn diwygio deddfwriaeth y Senedd heb droi at Weinidogion Cymru.

73. Byddai'r broses Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A yn cael ei defnyddio, a byddai angen cydsyniad y Senedd os byddai unrhyw Offeryn Statudol a osodir o dan y pwerau hyn gerbron Senedd y DU mewn perthynas â Chymru yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

74. Nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi cymal 125 neu 130 fel cymalau sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd. Serch hynny, yn ei lythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2021, eglurodd Gweinidog y DU sut yr oedd yn rhagweld y byddai cymal 130 yn cael ei ddefnyddio:

"Clause 134 [clause 130 of the Bill as introduced] enables the UK Government to make consequential amendments that might be necessary following the passage of the Bill, including to devolved legislation. The consequential amendments we envisage will include numerous amendments to secondary legislation as a consequence of the Bill's provisions, as such amendments were not included on the face of the Bill.

It is also prudent to retain a power to amend primary legislation in the event that anything has been missed. This would allow, for example, the updating of names of particular bodies – minor changes that, if left unaddressed, could prevent the effective operation of the legislation.

This type of power is quite common in a Bill as large as the Health and Care Bill, and there are many examples of similar powers in legislation already on the statute book and so I hope that the Committee are reassured that this is simply a useful power to ensure the statute book works effectively. The Welsh Government will obviously retain the ability to make such legislative changes to devolved legislation if they so choose.”⁵³

75. Dywedodd y Gweinidog HSS wrthym ym mis Hydref 2021, fodd bynnag, fod pwerau o'r fath ymhlith y prif feysydd "sy'n peri pryder" iddi mewn perthynas â'r Bil. Esboniodd fod ei swyddogion yn ystyried opsiynau posibl gyda swyddogion yn Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, a'i bod yn "dal i fod yn obeithiol" y gellir dod i gytundeb.⁵⁴

76. Yn ei llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2021, dywedodd y Gweinidog HSS ei bod hi a'i swyddogion wedi cynnal trafodaethau pellach gyda Llywodraeth y DU ac:

"Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y rhain yn gymalau safonol a'n bod ni, yn yr un modd, yn cymryd pwerau yn Neddfau'r Senedd i wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU.

Mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi rhoi enghreifftiau o sut y gellir defnyddio'r pwerau hyn—mae'n debygol mai mân ddiwygiadau fyddai'r rhain, er enghraifft newid enw sefydliad Saesneg y cyfeirir ato yn neddfwriaeth y Senedd os yw swyddogaethau wedi'u trosglwyddo. Mae'r Gweinidog Argar hefyd wedi rhoi ymrwymiad ysgrifenedig y bydd yn cyflwyno datganiad Blwch Dogfennau ar sut y gellir defnyddio'r pwerau hyn.”⁵⁵

Ein barn ni

77. Mae'r egwyddor o ran a ddylid ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch defnydd yr Ysgrifennydd Gwladol o'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil neu a ddylai fod angen

⁵³ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd, 25 Tachwedd 2021

⁵⁴ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

⁵⁵ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Tachwedd 2021

cydsyniad y Senedd yn parhau i fod yn fater arwyddocaol mewn perthynas â nifer o gymalau. Rydym yn croesawu'r awgrym gan y Gweinidog HSS yn ei llythyr ar 19 Hydref 2021 ei bod yn "dal i fod yn obeithiol" y gellir dod i gytundeb. Rydym yn cytuno â hi y byddai cynnwys gofynion cydsyniad ar wyneb y Bil nid yn unig yn darparu amddiffyniadau ar gyfer y setliad datganoli yn y tymor hwy waeth pa lywodraethau sydd mewn grym, ond y byddai hefyd yn darparu rhagor o dryloywder nag y gellid ei gyflawni drwy ddatblygu cytundebau rhynglywodraethol ar wahân.

78. Nid yw'n briodol diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd wedi bod yn destun gwaith craffu a chytundeb llawn y Senedd yn sylweddol, drwy is-ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Weinidogion y DU, heb gysyniad.

79. Rydym ninnau yr un mor bryderus â'r Gweinidog HSS ynghylch cynnwys y pŵer cyffredinol, ar draws y Bil yng nghymal 130, i wneud darpariaeth ganlyniadol, gan gynnwys diwygio, diddymu neu ddirymu Deddf neu Fesur gan y Senedd. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar wyneb y Bil sy'n atal Gweinidogion y DU rhag gwneud diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 na deddfwriaeth y Senedd.

80. Rydym wedi nodi uchod mewn paragraffau blaenorol y byddai'r broses Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A yn cael ei defnyddio, ac y byddai angen cydsyniad y Senedd os byddai unrhyw Offeryn Statudol a osodir gerbron Senedd y DU mewn perthynas â Chymru yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

81. Nodwn fod y Gweinidog HSS, ar 25 Tachwedd, yn parhau i ystyried a oedd y sicrwydd a gafodd ynghylch y defnydd arfaethedig o'r pwerau hyn yn lleihau'r risgiau o'u cynnwys yn y Bil i lefel dderbyniol.

Argymhelliad 4. Cyn gofyn i'r Senedd a yw'n dymuno rhoi ei chydsyniad i'r Bil, dylai'r Gweinidog HSS roi rhagor o wybodaeth am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch y pwerau diwygio canlyniadol yn adran 89, adran 125 ac adran 130 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd), gan gynnwys, yn ei barn hi, a yw'r sicrwydd a gafodd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r defnydd arfaethedig o'r pwerau yn lleihau'r risgiau cysylltiedig i lefelau derbyniol.

9. Darpariaethau eraill

82. Mae'r Memorandwm yn nodi naw darpariaeth yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer. Yn yr adroddiad hwn rydym wedi canolbwyntio'n bennaf ar y darpariaethau hynny sy'n arwain at faterion neu bryderon mwy sylweddol. Nid ydym wedi clywed unrhyw bryderon ynglŷn â goblygiadau'r darpariaethau a ganlyn, nac ynghylch eu cynnwys yn neddfwriaeth y DU, ac felly nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r Senedd roi ei chydsyniad i'r canlynol:

- **Cymal 75: Tacluso etc darpariaethau ynghylch cyfrifon cyrff penodol y GIG**
 Mae'r cymal hwn yn mewnosod adran newydd yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 a fydd yn gosod rhwymedigaethau ar Awdurdodau Iechyd Arbennig ("SHAs") mewn perthynas â'u cyfrifon ac archwilio, ac yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddiadau i Awdurdod Iechyd Arbennig mewn perthynas â'r ffurf y mae'n rhaid cadw ei gyfrifon. Esboniodd y Gweinidog nad yw'n disgwyl i unrhyw wrthdaro rhwng y ddarpariaeth hon ac arfer swyddogaethau Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru/Lloegr, er enghraifft y gofyniad o dan adran 86 o Ddeddf Llywodraeth Cymru i osod Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG gerbron y Senedd.
- **Cymal 78: Cleifion ysbyty ag anghenion gofal a chymorth: diddymiadau ac ati**
 Mae'r cymal hwn yn diddymu Deddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) 2003 ("Deddf 2003"), sy'n gymwys i Gymru a Lloegr. Nid yw'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 2003 wedi'u cychwyn mewn perthynas â Chymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad oes ganddi unrhyw fwriad polisi i wneud hynny. Mae'r ddarpariaeth, felly, yn dileu darpariaethau deddfwriaethol diangen.
- **Cymal 127: Gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr - pŵer i ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir**
 Mae'r cymal hwn yn cyflwyno adrannau newydd i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 i alluogi rheoliadau a wneir o dan adran 16(1)(e) o'r Ddeddf honno i wneud diwygiadau, yn eu tro, i Reoliad (UE) Rhif 1169/2011 a ddargedwir ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr. Mae adran 16 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol (mewn perthynas â Lloegr), Gweinidogion yr Alban (mewn perthynas â'r Alban) a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru). Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflawni nifer o gynigion polisi Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â gordewdra, a allai olygu bod angen diwygio'r ddeddfwriaeth hon a ddargedwir.

Casgliad 3. Nid oes gennym wrthwynebiad i'r Senedd roi ei chydysyniad i gynnwys cymalau 75 yn y Bil (Tacluso etc darpariaethau ynghylch cyfrifon cyrff penodol y GIG), 78 (Cleifion ysbyty ag anghenion gofal a chymorth: diddymiadau ac ati) a 127 (Gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr - pŵer i ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir).

10. Goblygiadau ariannol

83. Mae'r Memorandwm yn nodi bod y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn arwain at oblygiadau ariannol posibl i Lywodraeth Cymru a chyrff iechyd Cymru. Eglurodd nad yw'n bosibl ar hyn o bryd, fodd bynnag, i asesu'r goblygiadau ariannol nes bod Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniadau ar weithredu. Ailadroddodd y Gweinidog HSS y safbwynt hwn yn ei llythyr atom ym mis Hydref 2021:

"O ran y darpariaethau a gwmpesir gan y Memorandwm, er bod meysydd risg wedi eu nodi i Gymru (fel costau uwch posibl i'n Byrddau Iechyd Lleol o Gytundebau Gofal Iechyd Rhyngwladol), unwaith yn rhagor, nid yw'r rhain yn fesuradwy ar hyn o bryd gan nad oes gennym fanylion ynghylch natur unrhyw gytundebau arfaethedig o'r fath a pha driniaethau y byddant yn eu cynnwys".⁵⁶

84. Nododd Cydffederasiwn GIG Cymru fod ei aelodau'n gweithredu ar y rhagdybiaeth y byddai'r goblygiadau ariannol i gyrff y GIG yng Nghymru sy'n gysylltiedig ag unrhyw drefniadau gofal iechyd cyfatebol newydd yn cael eu lliniaru gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.⁵⁷

85. Dywedodd y Gweinidog HSS fod cytundeb o dan y Datganiad o Bolisi Ariannu y byddai Llywodraeth y DU yn talu costau sy'n deillio o Ddeddfau Senedd y DU. Nododd ei bod wedi ysgrifennu at Weinidog y DU i ofyn am sicrwydd penodol y byddai'r costau sy'n dod i Gymru o ganlyniad i'r Bil hwn yn cael eu talu gan Lywodraeth y DU, a bod swyddogion yn trafod y mecanwaith ad-dalu priodol.⁵⁸ Yn ei llythyr ar 25 Tachwedd 2021, dywedodd:

"Cynhaliwyd trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU yn ymwneud â chostau, ac rwyf wedi cael peth sicrwydd. Yn ehangach, mae'r Gweinidog Argar wedi cadarnhau y bydd Fformwla Barnett yn berthnasol i'r costau ychwanegol sy'n deillio o ddarpariaethau yn y Bil sy'n effeithio ar Gymru fel y nodwyd yn y Datganiad o Bolisi Ariannu.

⁵⁶ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

⁵⁷ LCMHCB06 Cydffederasiwn GIG Cymru

⁵⁸ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

*O ran gofal iechyd cilyddol yn benodol, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd yn ariannu costau triniaeth a ddarperir dramor i breswylwyr o Gymru o dan unrhyw drefniadau gofal iechyd newydd.*⁵⁹

86. Yn ei lythyr atom, dywedodd Gweinidog y DU:

*"The UK Government commits to consult with the Welsh Government on future potential cost implications in Wales when regulations are to be drafted and during the process of the Bill's implementation. We are fully committed to working with all of the Devolved Administrations to ensure smooth implementation of the provisions of the Bill and HMT have confirmed that the Barnett formula will apply, as set out in the Statement of Funding Policy.*⁶⁰

Ein barn ni

87. Rydym yn croesawu'r sicrwydd a gafwyd gan y Gweinidog HSS y byddai'r costau i Gymru sy'n deillio o'r Bil yn cael eu talu gan Lywodraeth y DU yn unol â'r Datganiad o Bolisi Ariannu, ac y bydd y costau sy'n ymwneud â thriniaeth a ddarperir dramor i drigolion Cymru o dan unrhyw gytundebau gofal iechyd newydd hefyd yn cael eu talu gan Lywodraeth y DU.

11. Gobygiadau i Gymru o ailstrwythuro'r GIG yn Lloegr a gynigir gan y Bil

88. Mae Rhan 1 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn Lloegr, gan gynnwys integreiddio, cydweithio a newidiadau eraill. Er nad oes angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r darpariaethau hyn, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog HSS am farn Llywodraeth Cymru ar unrhyw oblygiadau posibl i Gymru yn sgil ailstrwythuro o'r fath, gan gynnwys unrhyw faterion trawsffiniol a ragwelir, materion cyflogaeth, neu faterion yn ymwneud â chomisiynu gwasanaethau i gleifion Cymru o GIG Lloegr fel gwasanaethau iechyd meddwl, gofal cleifion mewnol neu wasanaethau canser.

89. Dywedodd y Gweinidog HSS wrthym:

⁵⁹ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 25 Tachwedd 2021

⁶⁰ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd, 25 Tachwedd 2021

"Mae posibilrwydd y gallai gwasanaethau eilaidd a thrydyddol (arbenigol) a ddarperir i gleifion Cymru yn Lloegr gael eu heffeithio, er enghraifft gweithdrefnau gofal wedi'i gynllunio a gynhelir gan ymddiriedolaethau Lloegr. Er enghraifft, un risg bosibl a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yw y gallai capasiti gwasanaeth i Fyrddau Iechyd Cymru gomisiynu ar gyfer cleifion Cymru fod yn llai pe bai mwy nag un System Gofal Integredig yn cyd-gomisiynu gwasanaethau gan ddarparwr/darparwyr mewn un ardal ddaearyddol.

Fodd bynnag, er ei bod yn bosibl y ceir effaith ar wasanaethau eilaidd a thrydyddol, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, rhagwelir mai ychydig iawn o debygolrwydd sydd y ceir unrhyw effaith niweidiol mewn perthynas â chomisiynu'r gwasanaethau hyn."⁶¹

90. Nododd fod cyrff iechyd Cymru a Lloegr yn cydweithio'n agos, gan gynnwys Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a GIG Lloegr, i sicrhau bod "gofynion cleifion Cymru yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â gwasanaethau arbenigol". Dywedodd fod Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan ffurfiol yn y gwaith o ddatblygu'r canllawiau sy'n gysylltiedig â chynigion comisiynu gwasanaethau gofal eilaidd. Ychwanegodd y Gweinidog:

"Ni ragwelir y bydd yr ailstrwythuro yn Lloegr yn effeithio ar ddatblygu a darparu gwasanaethau gofal a chymorth trawsffiniol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd pobl yn parhau i dderbyn gwasanaethau fel y maent ar hyn o bryd, yn enwedig felly y rhai hynny sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth trawsffiniol."⁶²

Ein barn ni

91. Mae llawer o bobl yng Nghymru yn cael gwasanaethau iechyd ar sail drawsffiniol, ac felly rydym yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd gan y Gweinidog HSS mai "ychydig iawn o debygolrwydd sydd y ceir unrhyw effaith niweidiol" mewn perthynas â chomisiynu neu ddarparu gwasanaethau i gleifion yng Nghymru o ganlyniad i'r bwriad i ailstrwythuro'r GIG yn Lloegr. Rydym hefyd yn croesawu'r wybodaeth y bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan

⁶¹ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

⁶² LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

yn y gwaith o ddatblygu canllawiau sy'n gysylltiedig â chynigion comisiynu gwasanaethau gofal eilaidd.

12. Proses a gweithdrefn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Amserlen graffu

92. Mae Rheol Sefydlog 29.4 yn darparu bod yn rhaid i'r Pwyllgor Busnes fel rheol gyfeirio unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol at bwyllgor neu bwyllgorau i'w ystyried, a sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau ystyried y memorandwm a chyflwyno adroddiad arno. Ar 14 Medi 2021, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried. Yr arfer presennol yw y dylai'r dyddiad cau ar gyfer adrodd ganiatáu o leiaf chwe wythnos eistedd ar gyfer craffu, ac wedi hynny, bydd y Pwyllgor Busnes yn pennu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 4 Tachwedd 2021.

93. Gwnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes ar 17 Medi 2021 i ofyn am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad, ar y sail nad oedd Llywodraeth Cymru wedi nodi eto pryd y byddai'n cyflwyno dadl ar y Memorandwm, a'r ffaith na fyddai'r amser sydd ar gael i ni yn amserlen y pwyllgorau fel arall yn caniatáu digon o amser i ni ystyried a gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'n cais, ac estynnwyd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad i 11 Tachwedd 2021. Yn dilyn gohebiaeth bellach gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ar 4 Tachwedd 2021, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn ymhellach i 16 Rhagfyr 2021.

Amseru a chynnwys y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

94. Mae Rheol Sefydlog 29.2(i) yn ei gwneud yn ofynnol i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod fel arfer heb fod yn hwyrach na dwy wythnos ar ôl cyflwyno'r Bil perthnasol i Senedd y DU. Cyflwynwyd y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Senedd y DU ar 6 Gorffennaf 2021, ond ni wnaeth Llywodraeth Cymru osod y Memorandwm gerbron Senedd Cymru tan 1 Medi 2021. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog HSS roi amlinelliad i ni o'r rhesymau dros yr oedi hwn.

95. Dywedodd wrthym:

"Roedd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn araf iawn yn darparu cymalau drafft y Bil inni i'w hystyried a'u dadansoddi.

Ar adeg cyflwyno'r Bil ar 6 Gorffennaf 2021, nid oeddem dal wedi gweld yr holl gymalau drafft na fersiynau diwygiedig o gymalau a rannwyd yn flaenorol. At hynny, dim ond y diwrnod cyn iddo gael ei gyflwyno y cawsom weld y Bil terfynol llawn. O ganlyniad, roedd yn amhosibl i swyddogion gynnal dadansoddiad llawn a thrylwyr o'r Bil am ei effaith ar Gymru ac unrhyw ofyniad am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd o fewn y terfyn amser arferol o bythefnos.

Cwblhaodd fy swyddogion y gwaith cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, roedd y pwyslais ar sicrhau bod dadansoddiad trylwyr o'r Bil wedi ei gynnal a bod yr holl faterion sy'n cael effaith ar Gymru, ac unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder mewn perthynas â Chymru yn ogystal â'r meysydd lle y mae'n ofynnol cael cydsyniad deddfwriaethol y Senedd, wedi eu nodi".⁶³

96. Mewn cyferbyniad, dywedodd Gweinidog y DU wrthym yn ei lythyr ar 25 Tachwedd 2021 fod ei swyddogion "wedi bod mewn deialog reolaidd â swyddogion yn Llywodraeth Cymru ers dechrau mis Chwefror a'u bod wedi ymgysylltu mewn modd cadarnhaol ac adeiladol ynghylch yr holl gymalau drafft pan gawsant eu rhannu cyn cyflwyno'r Bil".⁶⁴

Ein barn ni

97. Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yw'r dull o ofyn i'r Senedd gytuno i Senedd y DU ddeddfu ar ei rhan mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Pe bai darpariaethau o'r fath yn cael eu cynnwys yn Neddffau'r Senedd, byddent yn destun proses graffu pedwar cyfnod sydd fel arfer yn para sawl mis ac yn galluogi ystyriaeth ac ymgysylltiad llawn a manwl â rhanddeiliaid ynghylch y darpariaethau a'u goblygiadau posibl. Er bod y cylch gorchwyl ar gyfer ein gwaith craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn canolbwyntio'n naturiol ar elfennau penodol o'r Bil dan sylw, ac mae'r cwmpas sydd ar gael i ni ar gyfer casglu a thrafod tystiolaeth o reidrwydd yn cael ei gwtogi gan gyfyngiadau amserlen Senedd y DU, ni ddylid anwybyddu na thanbriso pwysigrwydd rôl y Senedd wrth graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. Mae hyn yn arbennig o wir am Filiau sy'n cynnwys nifer o ddarpariaethau y mae angen cydsyniad ar

⁶³ LCMHCB03 Llywodraeth Cymru

⁶⁴ Lythyr gan y Gweinidog Iechyd, 25 Tachwedd 2021

eu cyfer, lle mae'r materion yn gymhleth neu'n ddadleuol, neu y mae gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU safbwyntiau gwahanol yn eu cylch.

98. Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Busnes am gytuno ar y ddau ymestyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad. Mae'r amser ychwanegol wedi ein galluogi ni i geisio rhagor o dystiolaeth i lywio ein gwaith craffu. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn well, ac wedi hwyluso gwaith craffu mwy effeithiol, pe bai'r dyddiad cau cychwynnol ar gyfer cyflwyno adroddiad wedi rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod y Bil ar gam cynnar iawn o'i daith drwy Senedd y DU, a'r amserlenni sy'n gysylltiedig â chasglu a rhoi ystyriaeth briodol i dystiolaeth gan randdeiliaid.

99. Ein barn ni yw, fel mater o drefn, y dylid sicrhau bod cymaint o amser â phosibl ar gael ar gyfer cynnal gwaith craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, ac, felly, y dylid cymhwyso'r dyraniad lleiaf o chwe wythnos eistedd dim ond pan fydd amgylchiadau'n golygu nad yw'n bosibl dyrannu cyfnodau craffu hirach a dyddiadau cau hwyrach ar gyfer cyflwyno adroddiadau. Rydym yn croesawu, felly, benderfyniad y Pwyllgor Busnes ar 28 Medi 2021 i ofyn i swyddogion y Senedd a Llywodraeth Cymru edrych ar sut y cynigir dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Pwyllgor Busnes eu hystyried.

100. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Gweinidog HSS am egluro'r rhesymau dros yr oedi cyn gosod y Memorandwm gerbron y Senedd. Rydym yn cydnabod bod dadansoddi Bil o'r maint a'r cymhlethdod hwn yn cymryd amser. Rydym hefyd yn croesawu'r manylion pellach a ddarparwyd gan y Gweinidog HSS yn ei llythyrau ar 19 Hydref 2021 a 25 Tachwedd 2021 ynghylch y problemau yn y Memorandwm, pryderon Llywodraeth Cymru am ddarpariaethau penodol, a'r atebion y mae'r Gweinidog yn ceisio eu cael gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, yn enwedig gan y bu cymaint o oedi cyn gosod y Memorandwm, rydym o'r farn y gallai, ac y dylai llawer o'r wybodaeth hon (pan oedd yn ymwneud â darpariaethau'r Bil fel y'i cyflwynwyd) fod wedi'i darparu yn y Memorandwm ei hun yn hytrach nag yn ddiweddarach mewn ymateb i'n cais.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau na chaiff Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol eu gosod fel arfer dim mwy na phythefnos ar ôl i Fil gael ei gyflwyno yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i). Os bydd angen oedi cyn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, dylai'r Gweinidog perthnasol ysgrifennu at bwyllgorau priodol y Senedd i roi amcangyfrif iddynt o ran pryd y bydd y Memorandwm yn cael ei gyflwyno.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol y mae'n eu gosod yn rhoi digon o wybodaeth i'r pwyllgorau perthnasol ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru, ei phryderon, unrhyw atebion y mae'n eu ceisio, ac unrhyw faterion eraill a allai fod yn briodol er mwyn galluogi gwaith craffu llawn ac effeithiol.